Annwyl Cwsmer

**Newidiadau i Wasanaeth Symudol Felin-fach**

Rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi ein bod yn adfer gwasanaethau Swyddfa’r Post i gymunedau Cross Inn a Rhydlewis trwy gyflwyno Gwasanaeth Symudol newydd. Caiff y gwasanaeth hwn ei redeg gan y postfeistr o Swyddfa Bost Felin-fach a bydd yn dechrau Ddydd Mawrth 19 Ebrill 2022 – yn Cross Inn am 11:15 ac yn Rhydlewis am 13:35. Bydd gwasanaeth Cross Inn yn cael ei redeg o gilfan Pentre Isaf, Cross Inn, Llandysul, SA44 6NG a bydd Gwasanaeth Symudol Rhydlewis yn cael ei redeg o'r gilfan oddi ar Bro Hawen, Rhydlewis, Llandysul, SA44 5RF.

Yn ogystal, bydd y postfeistr o Swyddfa Bost Felin-fach yn darparu Gwasanaeth Symudol newydd i gymuned Stag's Head o Ddydd Llun 25 Ebrill 2022 am 11:55. Bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei redeg o gwrt blaen Gorsaf Danwydd Hendre-wen, Stag's Head, Llangeitho, Tregaron, SY25 6QU.

Buom yn gweithio'n galed i gael hyd i ateb er mwyn darparu gwasanaethau Swyddfa’r Post i gymunedau Cross Inn, Rhydlewis a Stag's Head. Profwyd bod Gwasanaeth Symudol, sef Swyddfa Bost deithiol ar fwrdd cerbyd pwrpasol sy'n dod â gwasanaethau a chynhyrchion manwerth Swyddfa'r Post i gymunedau heb orfod dibynnu ar adeilad parhaol, yn ffordd dda o gynnal gwasanaeth i gymunedau bychain.

Mae manylion pellach am y Gwasanaeth Symudol newydd yn Cross Inn, Rhydlewis a Stag's Head – ar ddiwedd y llythyr hwn.

Er mwyn gallu ymdopi â lleoliadau newydd y Gwasanaeth Symudol, bydd rhai newidiadau i'r Gwasanaeth Symudol presennol sy'n cael ei redeg gan Swyddfa Bost Felin-fach yn Llangeitho, Llangwyryfon, Joppa, Talgarreg, Ffostrasol, Penrhiw-llan, Pont-siân, Llanilar, Cribyn, Lledrod a Dihewyd o'r wythnos yn dechrau Dydd Llun 18 Ebrill 2022.

Mae manylion pellach am y newidiadau i'r gwasanaethau hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaethau newydd, byddwch cystal â chysylltu â'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn unol â'r manylion isod. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Mae’r hysbysiad hwn yn unol â’n Hegwyddorion Ymgysylltu â’r Gymuned. Mae detholiad sy’n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r Gwasanaeth Symudol yn Cross Inn, Rhydlewis a Stag's Head.

Yr eiddoch yn gywir

*Fiona Shanahan*

**Fiona Shanahan**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa’r Post Cyfyngedig.

**postoffice.co.uk**

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol newydd yn Cross Inn, Rhydlewis a Stag's Head:**

**Gwasanaeth Symudol Cross Inn**
Cilfan Pentre-isaf
Cross Inn
Llandysul
SA44 6NG

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:15 – 12:15 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 100 metr o'r gangen Swyddfa'r Post flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

---

**Gwasanaeth Symudol Rhydlewis**
Cilfan oddi ar Fro Hawen
Rhydlewis
Llandysul
SA44 5RF

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 13:35 – 14:05 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 300 metr o'r gangen Swyddfa'r Post flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Gwasanaeth Symudol Stag's Head**
Gorsaf Danwydd Hendre-wen
Cwrt Blaen yr Orsaf
Stag's Head
Llangeitho
Tregaron
SY25 6QU

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 11:55 – 12:10 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd ymudol wedi ei barcio.

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol:**

**Gwasanaeth Symudol Llangeitho, Sgwâr y Pentref, Llangeitho, Tregaron, SY25 6TL**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:30 – 11:20 |
| Dydd Mercher: | 15:25 – 16:15 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:30 – 11:30 |
| Dydd Merche | 15:40 – 16:20 |

**Gwasanaeth Symudol Llangwyryfon, Y tu allan i'r Swyddfa Bost, Llangwyryfon, Aberystwyth SY23 4HA**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:15 – 14:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:30 – 14:30 |

**Gwasanaeth Symudol Joppa, Polyn Ffôn BT Rhif DP7, Joppa, Llanrhystud, SY23 5EJ**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 17:00 – 18:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 17:05 – 18:00 |

**Gwasanaeth Symudol Talgarreg, Ger Eglwys Dewi Sant, Talgarreg, Llandysul, SA44 4EP**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:30 – 11:30 |
| Dydd Iau | 14:15 – 15:15 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:30 – 11:00 |
| Dydd Iau | 14:10 – 15:10 |

**Gwasanaeth Symudol Ffostrasol, Y tu allan i hen Swyddfa Bost Ffostrasol, Ffostrasol, Llandy: SA44 4SY**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:45 – 13:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:30 – 13:30 |

**Gwasanaeth Symudol Penrhiw-llan, Maes Parcio Neuadd Bentref Penrhiw-llan, Llandysul, SA44 5NN**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 13:30 – 14:50 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:30 – 15:45 |

**Gwasanaeth Symudol Pont-siân, Maes Parcio Hen Siop Y Pentre, Pont-siân, Llandysul, SA44 4UL**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 15:00 – 16:15 |
| Dydd Iau | 11:45 – 13:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 16:00 – 16:30 |
| Dydd Iau | 11:40 – 13:30 |

**Swyddfa Bost Symudol Llanilar, Maes Parcio Falcon Inn Llanilar, Aberystwyth, SY23 4PA**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 15:00 – 16:45 |
| Dydd Merche | 10:30 – 12:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 15:00 – 16:45 |
| Dydd Mercher: | 10:40 – 12:00 |

**Gwasanaeth Symudol Cribyn, Polyn Telegraff BT - DPJ80, B4337 gyferbyn a'r blwch postio, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7NE**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 09:00 – 10:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 09:50 – 10:20 |

**Gwasanaeth Symudol Dihewyd, Ger Neuadd Y Pentref, Dihewyd, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed, SA48 7PN**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 15:30 – 17:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 15:30 – 17:00 |

**Gwasanaeth Symudol Lledrod, Polyn Telegraff BT74, Wrth y Blwch Ffôn, Lledrod, Aberystwyth, SY23 4TB**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:00 – 13:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:30 – 13:20 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau  i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori -* postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor y Swyddfa Bost
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

**Postofficeviews.co.uk.**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch:  03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd

Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.